# PROSIECT CWBLHAU RHWYDWAITH ARDALOEDD MOROL GWARCHODEDIG CYMRU: CWESTIYNAU CYFFREDIN

## Cwestiynau Cyffredin Lefel Uchel:

### Beth yw Ardaloedd Morol Gwarchodedig?

Mae Ardal Forol Warchodedig (MPA) fel arfer yn unrhyw ardal o fôr neu lan y môr a warchodir gan y gyfraith i ddiogelu cynefinoedd, rhywogaethau neu brosesau naturiol eraill. Gellir defnyddio'r ardaloedd hyn mewn ffordd gynaliadwy. Gelwir y cynefinoedd a'r rhywogaethau (neu brosesau naturiol eraill) a ddiogelir mewn MPAau yn 'nodweddion'.

### Pa fathau o MPAau sydd gennym yng Nghymru?

Mae pum math gwahanol o MPA sy'n cyfrannu at Rwydwaith MPAau ecolegol gydlynol yn nyfroedd Cymru.

- Mae **Ardaloedd Cadwraeth Arbennig** (ACAau) yn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau penodol o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop (1992). Mae 15 ACA yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd fel riffiau, aberoedd, banciau tywod a riffiau swigod ar y môr. Maent hefyd yn cynnwys rhywogaethau fel morloi llwyd, dolffiniaid trwyn potel a llamhidyddion harbwr.
- Mae ACAau yn cael eu dynodi o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

- Mae **Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig** (AGAau) yn diogelu poblogaethau o adar gwyllt o dan y Gyfarwyddeb Adar Ewropeaidd (1979). Mae 13 AGA yng Nghymru. Mae AGAau yn cynnwys adar sy'n mudo a chasgliadau mawr o rywogaethau rhestredig. Dros y blynyddoedd diwethaf mae'r Rhwydwaith wedi cael ei estyn i gynnwys diogelu adar môr pan fyddant ar y môr. Mae AGAau yn cael eu dynodi o dan Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017.

- Mae **Parthau Cadwraeth Morol (MCZau)** yn diogelu rhywogaethau a chynefinoedd morol a nodweddion daearegol yn y môr sydd o ddiddordeb. Ar hyn o bryd mae un MCZ yn nyfroedd Cymru. Mae MCZau yn cael eu dynodi o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009). Yn 2014, daeth Rhan 5 o Ddeddf y Môr i rym. O ganlyniad, ailddosbarthwyd y Warchodfa Natur Forol yn Barth Cadwraeth Morol.

- Mae **Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig** (SoDdGAau) yn diogelu bywyd gwyllt a daeareg penodol o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Ar hyn o bryd mae 107 SoDdGA yng Nghymru. Mae SoDdGAau yn ymdrin â chynefinoedd a rhywogaethau pwysig ar lefel fwy lleol, gan sicrhau bod cynefinoedd

a rhywogaethau prin a gwasgaredig ac enghreifftiau rhagorol o gynefinoedd yn cael eu diogelu'n rhanbarthol. Mae SoDdGAau yn gallu cynnwys glannau'r môr hyd at y llanw isaf a gwely'r môr mewn aberoedd.

- Mae **safleoedd Ramsar** yn diogelu cynefinoedd ar wlyptiroedd a rhywogaethau o bwys rhyngwladol, yn bennaf adar, fel sy'n ofynnol o dan Gonfensiwn Gwlyptiroedd Rhyngwladol 1971 ('Confensiwn Ramsar'). Ar hyn o bryd mae tri safle Ramsar yng Nghymru.

# Pam mae angen MPAau arnom?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau moroedd glân, iach, diogel, cynhyrchiol a biolegol amrywiol. Un ffordd o sicrhau amgylchedd morol cydnerth yng Nghymru yw drwy rwydwaith o Ardaloedd Morol Gwarchodedig (MPAau) a reolir yn dda, sy'n cyfrannu at rwydwaith ehangach, ecolegol gydlynol o MPAau ledled y DU. Maent yn helpu i cynnal ardaloedd o werth biolegol, cymdeithasol ac ariannol mewn cyflwr iach a chynhyrchiol, gyda bywyd amrywiol sydd o fudd i bawb.

Mae rhwydwaith o MPAau a reolir yn dda yn allweddol wrth warchod amgylchedd morol Cymru a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu, nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Beth yw rhwydwaith ecolegol gydlynol?

Mae rhwydwaith o MPAau yn cyfeirio at yr holl wahanol fathau o MPAau ar gyfer bioamrywiaeth yn eu cyfanrwydd fel set lawn o safleoedd gwarchodedig.  Mae MPAau wedi cael eu dynodi dros y blynyddoedd o dan ddeddfwriaeth wahanol, ar gyfer gwahanol setiau o gynefinoedd a rhywogaethau ac i raddau gwahanol. Er bod hyn wedi bod yn effeithiol o ran diogelu rhai cynefinoedd a rhywogaethau, bu rhai ardaloedd lle y rhoddid ychydig iawn o amddiffyniad neu ddim amddiffyniad o gwbl, yn enwedig ar gyfer rhai gwaddodion sydd ymhellach o'r glannau a rhai o'n cynefinoedd a rhywogaethau sy'n brinnach neu dan fygythiad.  Cyflwynodd egwyddorion OSPAR ar gyfer rhwydweithiau'r syniad, er mwyn diogelu'n ddigonol amrywiaeth yr amgylchedd morol, fod rhaid inni sicrhau bod enghreifftiau o'r holl gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bresennol yn ein moroedd yn cael eu diogelu mewn nifer o safleoedd, a'u bod wedi'u dosbarthu'n briodol yn ein dyfroedd.  Dyna'r sail i rwydwaith ecolegol gydlynol o MPAau ac mae wedi cael ei fabwysiadu gan y DU a'r llywodraethau datganoledig[1]

Mae ein dealltwriaeth o rwydwaith ecolegol gydlynol yn seiliedig ar egwyddorion OSPAR ar gyfer rhwydwaith o MPAau[2]. Mae'r egwyddorion hyn yn argymell bod yr holl gynefinoedd a rhywogaethau (nodweddion) yn cael eu cynrychioli mewn rhwydwaith o MPAau, a bod digon o enghreifftiau o'r nodweddion hyn yn cael eu diogelu i sicrhau'r amrywiaeth. Rhaid hefyd i'r nodweddion gael eu cynnwys mewn mwy nag un MPA a bod yn ddigon agos i safleoedd sydd â nodweddion tebyg i sicrhau cysylltedd. Mae crynodeb o'n dehongliad o egwyddorion OSPAR ar gyfer rhwydwaith o MPAau yn y tabl canlynol.

[1] https://.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-05/marine-protected-areas-mpas-network-joint-uk-administrations-statement.pdf
[2] https://www.ospar.org/work-areas/bdc/marine-protected-areas/guidance-for-the-development-and-management-of-the-ospar-network

| **Egwyddorion ar gyfer Rhwydwaith MPAau Cymru** | **Meini Prawf** | **Cyfiawnhad** |
|---|---|---|
| **Cynrychioli** | Mae pob nodwedd yn y rhestr o nodweddion ar gyfer MPAau Cymru yn cael ei chynrychioli yn MPAau Cymru.<br><br>*Diogelir o leiaf 10% o arwynebedd pob* nodwedd cynefin eang (cynefinoedd sy'n nodweddu'r ardal forol) ym mhob rhanbarth. | Mae'n sicrhau bod yr amrediad lawn o gynefinoedd a rhywogaethau'n cael eu cynrychioli o fewn y Rhwydwaith.<br><br>Mae'n sicrhau bod cyfran briodol o bob cynefin yn cael ei chynrychioli o fewn y Rhwydwaith i sicrhau bod y Rhwydwaith yn effeithiol ac ecolegol hyfyw. |
| **Dyblygu** | Diogelir dwy enghraifft o bob nodwedd cynefin eang ym mhob rhanbarth.<br><br>Os yw nodwedd o ddiddordeb cadwraethol, diogelir tair enghraifft o'r nodwedd ym mhob rhanbarth (os yw'r dosbarthiad yn caniatáu hynny). | Mae dyblygu nodweddion yn cynyddu eu gallu i wrthsefyll effeithiau.<br><br>Mae'n sicrhau bod pob cynefin eang a rhywogaethau a chynefinoedd sy'n brin neu dan fygythiad yn cael eu cynrychioli a'u diogelu o fewn y Rhwydwaith.<br><br>Oherwydd natur gyffredinol cynefinoedd eang, dim ond dwy enghraifft sydd eu hangen i ddiogelu'r nodwedd yn ddigonol yn y rhanbarth, ond oherwydd statws prin/dan fygythiad /dirywio nodweddion o bwys cadwraeth, mae angen enghraifft ychwanegol (cyfanswm o dair) i sicrhau amddiffyniad digonol o fewn y rhanbarth. |
| **Cysylltedd** | Nid yw MPAau â mathau o gynefinoedd tebyg yn fwy nag 80km oddi wrth ei gilydd.<br><br>Mae enghreifftiau o bob cynefin ar draws dyfnderoedd amrywiol (lle maent yn bodoli). | Mae lleoli safleoedd sydd â nodweddion tebyg o fewn 80km i'w gilydd yn sicrhau eu bod yn fwy tebygol o gysylltu â'i gilydd yn ecolegol[3].<br><br>Mae darparu enghreifftiau o bob cynefin ar draws dyfnderoedd amrywiol yn sicrhau bod y Rhwydwaith MPAau wedi'i ddosbarthu'n dda ac yn ystyried cysylltiadau rhwng ecosystemau morol. |

[3] Nododd Roberts et al. (2010) 80km fel canllaw ar gyfer y pellter mwyaf rhwng safleoedd sy'n cynnal cynefinoedd tebyg er mwyn sicrhau cysylltedd ecolegol digonol. Roberts, C.M., Hawkins, J.P., Fletcher, J., Hands, S., Raab, K. a Ward, S. 2010. Ers hynny, mae gan OSPAR wedi defnyddio'r canllaw hwn i asesu cysylltedd.

## Sawl MPA sydd eisoes?

Ar hyn o bryd mae 139 MPA yn nyfroedd Cymru. Maent yn cynnwys 69% o ddyfroedd glannau Cymru, hyd at 12 milltir forol, a 50% o holl ddyfroedd Cymru, hyd at y llinell ganol. Mae'r rhain yn cynnwys amrywiaeth eang o gynefinoedd a rhywogaethau sy’n bresennol yn nyfroedd Cymru. Mae rhagor o wybodaeth am y Rwydwaith MPAau yma.

## Pam mae angen rhagor o MPAau arnom?

Mae MPAau yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddiogelu amgylchedd morol Cymru a chadw ein moroedd yn iach, yn gydnerth ac yn llawn bywyd.

Mae gan Lywodraeth Cymru lawer o rwymedigaethau cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu rhwydwaith o MPAau sy'n ecolegol gydlynol ac yn cael ei reoli'n dda.

Yn ôl yr asesiad o Rwydwaith MPAau Cymru, a gafodd ei gynnal yn 2016 a’i adolygu yn 2019, mae MPAau yng Nghymru yn gwneud cyfraniad sylweddol at gydlyniad ecolegol y Rhwydwaith. Mae MPAau Cymru yn cynrychioli'r rhan fwyaf o gynefinoedd a rhywogaethau a, lle bo modd, yn dyblygu nodweddion i sicrhau bod y Rhwydwaith yn gydnerth ac â chysylltiadau da. Nododd yr asesiad nifer fach o ddiffygion yn y ffordd roedd Cymru yn diogelu rhai nodweddion yn Rhwydwaith y DU. Mae MCZau yn cael eu hystyried er mwyn mynd i’r afael â’r diffygion hyn.

Yn 2017, ymrwymodd Gweinidog yr Amgylchedd a Materion Gwledig i ddefnyddio canfyddiadau’r asesiad o’r Rhwydwaith yn 2016 i gwblhau cyfraniad Cymru at Rwydwaith MPAau y DU gyfan. Mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n nodi rhagor o MCZau. Bydd hyn yn sicrhau bod yr amrediad lawn o gynefinoedd a rhywogaethau sy’n bresennol yn nyfroedd Cymru yn cael eu cynrychioli yn y Rhwydwaith, ac yn helpu i'w gadw'n iach, yn gydnerth ac yn llawn bywyd.

## Beth yw MCZ?

Mae Parthau Cadwraeth Morol (MCZau) yn diogelu rhywogaethau neu gynefinoedd morol neu nodweddion daearegol yn y môr sydd o ddiddordeb. Maent yn cael eu dynodi o dan **Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir (2009)**.  Yn 2014, daeth Rhan 5 o Ddeddf y Môr i rym. O ganlyniad cafodd Gwarchodfa Natur Forol Sgomer ei hailddosbarthu yn MCZ.

# Cwestiynau Cyffredin penodol mewn perthynas â Phrosiect Cwblhau Rhwydwaith MPAau Cymru:

## Pa nodweddion sy'n cael eu hystyried ar gyfer MCZau newydd?

Roedd yr asesiad o Rwydwaith MPAau Cymru yn canolbwyntio ar y categorïau canlynol o nodweddion cynefinoedd a rhywogaethau:

- Cynefinoedd eang. Mae cynefinoedd eang yn grwpiau o fathau o gynefinoedd sydd â nodweddion ffisegol a biolegol tebyg, e.e. math o waddodion, dyfnder, cymunedau

biolegol ac ati. Drwy ddiogelu pob math o gynefin eang mae'r Rhwydwaith MPAau yn sicrhau ei fod yn cynrychioli'r amrediad llawn o gynefinoedd yn nyfroedd Cymru.

- Cynefinoedd o bwys cadwraeth. Mae'r cynefinoedd hyn o ddiddordeb cadwraethol arbennig ac maent wedi'u cynnwys yn rhestr OSPAR o gynefinoedd a rhywogaethau[4] sydd dan fygythiad a/neu sy'n dirywio; neu restr Adran 7 dros dro Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 o gynefinoedd a rhywogaethau sydd o'r pwys mwyaf[5].
- Rhywogaethau anfudol / cyfyngedig eu symudedd o bwys cadwraeth. Mae'r rhywogaethau hyn o ddiddordeb cadwraethol penodol ac maent wedi'u cynnwys yn rhestr OSPAR o gynefinoedd a rhywogaethau sydd dan fygythiad a/neu sy'n dirywio; neu restr Adran 7 dros dro Deddf yr Amgylchedd[6](Cymru) 2016 o gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf[7].

Mae rhywogaethau fel mamaliaid ac adar y môr yn rhan bwysig o'r ecosystem. Fodd bynnag, nid ydynt wedi'u cynnwys yn yr asesiad hwn. Asesir sut rydym yn diogelu'r rhywogaethau hyn o fewn Rhwydwaith MPAau Cymru drwy brosesau ar wahân.

Mae prosiect Cwblhau Rhwydwaith MPAau Cymru yn canolbwyntio ar y nodweddion canlynol:

| Nodwedd | Math | Disgrifiad |
| --- | --- | --- |
| Gwaddod bras islanwol | Cynefin eang | Tywod bras, graean, cerrig mân, graean bras a choblau sydd bob amser dan ddŵr. Mae'r cynefin hwn yn aml yn ansefydlog oherwydd cerrynt llanw a/neu effaith tonnau. |
| Tywod islanwol | Cynefin eang | Gwely môr tywodlyd sydd dan ddŵr bob amser. Mae effaith y tonnau yn gwasgaru'r rhan fwyaf o laid a chlai gan adael cynefin llac a newidiol sy'n gartref i rywogaethau fel lledod a llymrïaid. |
| Llaid islanwol | Cynefin eang | Mathau o laid a llaid tywodlyd gludiog sydd bob amser o dan ddŵr. Mae'n ymestyn o lefel isaf y llanw isel i gynefinoedd dyfnfor y môr mawr |
| Gwaddodion cymysg islanwol | Cynefin eang | Mae'r cynefin hwn yn cynnwys amrywiaeth o waddodion. Mae rhain yn cynnwys tywod graeanog lleidiog a brithwaith o goblau a cherrig mân o fewn y gwaddod neu'n gorwedd arno. Gall y cymysgedd hwn o waddodion a chreigiau bach ganiatáu i amrywiaeth o anifeiliaid fyw yn y gwaddod ac ar y coblau a'r cerrig mân. |
| Cymunedau bregus o sbyngau ac anthosoaid ar gynefinoedd creigiog islanwol | Cynefin o bwys cadwraeth | Mae'r gymuned hon yn cynnwys mathau o sbwng sy'n tyfu allan o wely'r môr ac anthosoaid (cwrelau meddal, môr-wyntyllod, ac anemonïau cytrefol). Mae angen digon o symudiad dŵr arnynt i ddod â chyflenwad parod o fwyd. O ganlyniad, maent i'w gweld ar lannau sy'n agored i donnau neu gerrynt, ond hefyd gyda chysgod lleol rhag grym llawn y tonnau a'r llanw. |
| Cynefinoedd lleidiog mewn dŵr dwfn | Cynefin o bwys cadwraeth | Mathau o laid a llaid tywodlyd gludiog sy'n bresennol mewn dyfnderoedd dros 20m. |

[4] Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd sydd dan Fygythiad / yn dirywio | Comisiwn OSPAR
[5] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (biodiversitywales.org.uk)
[6] Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd sydd dan Fygythiad a/neu sy'n dirywio | Comisiwn OSPAR
[7] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (biodiversitywales.org.uk)

| Nodwedd | Math | Disgrifiad |
|---|---|---|
| Cymunedau cwils môr a megaffawna tyrchol | Cynefin o bwys cadwraeth | Ar wastadeddau sefydlog o laid mân, gall rhannau o wely'r môr fod yn frith o dwmpathau. Gwnaed y twmpathau hyn gan anifeiliaid fel y llyngyr llosgfynydd, tyllau (e.e. gan gimychiaid Norwy a chramenogion eraill) a chwils môr sy'n ymestyn i fyny i’r dŵr i gasglu bwyd. |
| Riffiau llyngyr dreiniog *(Sabellaria spinulosa)* | Cynefin o bwys cadwraeth | Mae'r llyngyren ddreiniog *(Sabellaria spinulosa)* yn asio gronynnau tywod i greu tiwb. Gellir gweld y rhain ar eu pen eu hunain ond byddant hefyd yn crynhoi i greu riffiau mawr. Ar ffurf rîff, mae tiwbiau'r llyngyr yn codi'n fertigol o wely môr tywodlyd neu raeanog gan ddarparu cynefin a bwyd ar gyfer mathau eraill o fywyd môr fel crancod a physgod ifanc. |
| Cocos mawr<br><br>*Arctica islandica* | Rhywogaethau anfudol / cyfyngedig eu symudedd o bwys cadwraeth | Gellir gweld cocos mawr (math o folwsg deufalf/gragen gylchog) ychydig yn is na lefel y distyll hyd at ddyfnder o tua 500m.  Maent yn claddu eu hunain yn y gwaddodion, bron yn llwyr yn aml, gyda dim ond tiwb bach yn ymestyn i wely'r môr. Gallant fyw am dros 500 mlynedd. |
| Môr-wyntyllod pinc<br><br>*Eunicella verrucosa* | Rhywogaethau anfudol / cyfyngedig eu symudedd o bwys cadwraeth | Mae'r fôr-wyntyll binc yn tyfu'n araf ac yn byw mewn ardaloedd lle mae cerrynt cryf ar riffiau creigiog. Mae'r canghennau wedi'u gorchuddio â lympiau bach ac o’r lympiau hyn daw ffurfiau tebyg i anemonïau bach i gasglu bwyd. Gallant dyfu hyd at 50cm o uchder a byw am 100 mlynedd. |

## Pam mae’r broses yn seiliedig ar nodweddion?

Nododd yr asesiad o’r Rhwydwaith MPAau ddiffygion yn y ffordd mae Rhwydwaith MPAau Cymru yn diogelu nifer fach o nodweddion o fewn Rhwydwaith MPAau y DU.  Mae angen safleoedd ychwanegol yn Rhwydwaith MPAau Cymru i ddiogelu'r nodweddion hyn ac i sicrhau bod yr amrediad llawn o gynefinoedd a rhywogaethau sy’n bresennol yn nyfroedd Cymru yn cael eu cynrychioli. Er mwyn sicrhau bod Cymru'n cyfrannu'n llawn at Rwydwaith MPAau y DU, rydym yn ceisio datblygu safleoedd ar gyfer y nodweddion hyn yn unig.


## A yw Prosiect Cwblhau Rhwydwaith MPAau Cymru yn ddigon uchelgeisiol? A ddylem wneud ymdrech i gynnwys rhagor o gynefinoedd yn yr MCZau?

Mae egwyddorion OSPAR ar gyfer rhwydwaith o MPAau yn argymell y dylid diogelu o leiaf 10% o bob cynefin eang o fewn y rhwydwaith o MPAau, gyda tharged uchelgeisiol o 20%.

Mae'r cynefinoedd a ddiogelir yn ein cyfres bresennol o ACAau yn mynd y tu hwnt i'r 20% uchelgeisiol a argymhellir gan OSPAR ar gyfer y rhan fwyaf o gynefinoedd yn nyfroedd Cymru – er enghraifft, mae 30-90% o gynefinoedd creigiog yn cael eu diogelu ar hyn o bryd.

# Beth yw 7 Cam Prosiect Cwblhau'r Rhwydwaith MPAau?

- **Cam 1: Ardaloedd Archwilio Eang:** Drafftiodd CNC a JNCC Ardal Archwilio Eang ar gyfer pob môr rhanbarthol yn nyfroedd Cymru. Mae'r rhain yn dangos y diffygion a nodwyd yn yr asesiad o'r Rhwydwaith MPAau a'u dosbarthiad ledled dyfroedd Cymru. Mae'r Ardaloedd Archwilio Eang yn ardaloedd lle mae nodweddion diffygiol eisoes yn cael eu diogelu ac yn tynnu sylw at ardaloedd o weithgarwch economaidd-gymdeithasol is er mwyn lleihau'r effeithiau.
- **Cam 2: Ardaloedd Archwilio:** Ardaloedd diffygiol mwy penodol er mwyn rhoi opsiynau ar gyfer lleoli MCZau posibl.
- **Cam 3: Diffinio ffiniau**: Mireinio'r ardal a ddewisir ar gyfer archwilio pellach drwy nodi ffiniau dangosol ar gyfer MCZau posibl o fewn yr Ardaloedd Archwilio.
- **Cam 4: Paratoi cyn-ymgynghori.** Mae CNC a'r JNCC yn darparu cyngor statudol cyn-ymgynghori ar MCZau posibl, ac mae Llywodraeth Cymru yn paratoi'r ymgynghoriad cyhoeddus
- **Cam 5: Ymgynghori a thrafod â'r cyhoedd:** Bydd Llywodraeth Cymru, gyda chymorth CNC a'r JNCC, yn cydlynu ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, gan gynnwys galwadau am ddata ecolegol a/neu economaidd-gymdeithasol cyhoeddedig perthnasol a gedwir gan randdeiliaid.
- **Cam 6: Paratoi ôl-ymgynghori.** Bydd CNC a'r JNCC yn adolygu'r adborth a'r dystiolaeth sy'n deillio o'r ymgynghoriad (gan gynnwys unrhyw fireinio a wneir i ffiniau MCZau posibl), ac yn rhoi cyngor statudol ar ôl yr ymgynghoriad ar yr MCZau a argymhellir i Lywodraeth Cymru. Llywodraeth Cymru fydd yn paratoi'r dogfennau ar gyfer dynodi MCZau.
- **Cam 7: Dynodi.** Ar ôl ystyried y cyngor ôl-ymgynghori statudol, yr adborth sy'n deillio o'r ymgynghoriad a'r asesiadau o'r effaith, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud penderfyniad mewn perthynas â'r MCZau sydd i'w dynodi.




# Beth yw Ardaloedd Archwilio Eang?

Ardaloedd Archwilio Eang yw'r cam cyntaf yn y broses o ddod o hyd i ardaloedd addas ar gyfer MCZau posibl. Nid yw Ardaloedd Archwilio Eang yn MCZau posibl, ac maent yn fwy nag y disgwylir i MCZ posibl fod.

Ardaloedd Archwilio Eang yw’r cam cyntaf yn y broses o ddewis ardaloedd addas ar gyfer MCZau posibl yn nyfroedd Cymru. Mae dogfennau’r Ardaloedd Archwilio Eang yn rhoi gwybodaeth am y nodweddion diffygiol sy'n bresennol ym mhob môr rhanbarthol. Cawsant eu cynhyrchu i helpu’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu ardaloedd helaeth o gynefinoedd a phenderfynu ynghylch Ardaloedd Archwilio addas. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno'r diffygion y tu allan i gynefinoedd sy’n cael eu diogelu ar hyn o bryd dan Atodiad I, ardaloedd lle mae gweithgareddau trwyddedig yn cael eu cynnal a hyn o bryd a seilwaith presennol.

## Pam rydym yn hepgor ardaloedd o gynefinoedd a ddynodir yn Atodiad I o’r Ardaloedd Archwilio Eang?

Mae cynefinoedd a rhywogaethau a ddynodir yn Atodiad I eisoes yn rhan o'r rhwydwaith. Er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yn y Rhwydwaith MPAau, mae angen inni ddod o hyd i enghreifftiau o gynefinoedd a rhywogaethau sydd y tu allan i nodwedd sydd eisoes yn cael ei gwarchod. Pe baem yn cynnwys ardaloedd y mae eu nodweddion eisoes wedi’u cynnwys yn Atodiad I, byddem yn cyfrif ddwywaith – gan, i bob pwrpas, ddiogelu'r un ardal o gynefinoedd ddwywaith.

## Beth yw Ardaloedd Archwilio?

Meysydd Archwilio yw'r ail gam yn y broses o ddod o hyd i ardaloedd addas ar gyfer MCZau posibl – y broses fireinio.

Mae Ardaloedd Archwilio yn lleoliadau yn nyfroedd Cymru sy'n ffurfio Cam 2 yn y broses o ddewis MCZau posibl.

O'r Ardaloedd Archwilio hyn y bydd MCZau posibl yn cael eu nodi yng Ngham 3 o’r broses. Dylai'r Ardaloedd Archwilio fod yn fwy na'r hyn sydd ei angen i wneud iawn am y diffyg, i ganiatáu i nifer o opsiynau gael eu datblygu a'u mireinio'n ddiweddarach yn y broses.

Dewisodd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr Ardaloedd Archwilio o’r Ardaloedd Archwilio Eang, gan ddefnyddio gwybodaeth am y nodweddion sy’n bresennol ac am weithgareddau pan oedd data ar gael.

## Sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid?

Sefydlodd Llywodraeth Cymru Grŵp Gorchwyl a Gorffen i gefnogi Prosiect Cwblhau Rhwydwaith MPAau Cymru. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn cynnwys gwirfoddolwyr o Grŵp Cynghori a Gweithredu Cymru ar Faterion Morol (WMAAG).

Mae'r rhanddeiliaid yn cynrychioli amrywiaeth o sectorau sydd â diddordeb mewn rheoli a hygyrchedd dyfroedd Cymru. Diben y grŵp yw i randdeiliaid morol weithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cymru, CNC a’r JNCC. Byddant yn nodi Parthau Cadwraeth Morol (MCZau) posibl yn nyfroedd Cymru, er mwyn cwblhau cyfraniad Cymru at rwydwaith ecolegol gydlynol o MPAau yn nyfroedd y DU. Bydd yr Aelodau'n gwneud y canlynol:

- Gwneud pob ymdrech i ddod i gyfarfodydd neu anfon dirprwy pan nad ydynt ar gael er mwyn sicrhau bod y prosiect yn cadw ar y trywydd iawn;
- Cymryd rhan weithredol mewn cyfarfodydd, gan rannu gwybodaeth yn agored;

- Rhannu gwybodaeth â'u sector cyn cyfarfodydd er mwyn casglu barn eu sector i lywio trafodaethau mewn cyfarfodydd;
- Yn dilyn cyfarfodydd, mae gan aelodau gyfrifoldeb i rannu negeseuon cyson â'u gwahanol rwydweithiau perthnasol a chyflwyno unrhyw faterion sy'n codi;
- Parchu barn ei gilydd;
- Gweithio mewn ffordd adeiladol i ddod o hyd i atebion os bydd anghytundeb.

Bydd trafodaethau pellach â rhanddeiliaid ehangach a'r cyhoedd yn cael eu cynnal wrth i'r broses ddatblygu.

## Pryd a sut rwy'n cael mynegi fy marn?

Bydd digon o gyfleoedd ichi rannu eich barn. Mae hyn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos a galwadau am unrhyw ddata ecolegol a/neu economaidd-gymdeithasol cyhoeddedig perthnasol sydd gan randdeiliaid.

Mae mewnbwn rhanddeiliaid a chymunedau yn hanfodol i Brosiect Cwblhau Rhwydwaith MPAau Cymru.

Er mwyn ategu'r broses, sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen, sy'n cynnwys rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r amrediad o sectorau sydd â diddordeb mewn rheoli a hygyrchedd dyfroedd Cymru. Bydd y Grŵp yn gyfrifol am helpu i nodi MCZau posibl yn nyfroedd Cymru. Bydd yr MCZau yn destun ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos, yn tebygol yn gwanwyn 2024, cyn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru i'w hystyried.

Bydd galwadau am ddata gan randdeiliaid yn cael eu cynnal yn dilyn y broses o nodi Ardaloedd Archwilio (Cam 2 o'r prosiect), ac yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus yn gwanwyn 2024.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyflwyno data ecolegol ac economaidd-gymdeithasol sy'n berthnasol i unrhyw un o'r nodweddion diffygiol, gallwch wneud hynny y pryd hwnnw. Bydd CNC a'r JNCC yn ystyried unrhyw wybodaeth berthnasol wrth iddynt ddatblygu eu cyngor statudol ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r MCZau posibl. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried gwybodaeth berthnasol a gyflwynir yn yr asesiadau o'r effaith mewn perthynas â'r MCZau posibl.

## Beth os nad wy'n cytuno â'r cynigion?

Caiff Llywodraeth Cymru, yn unol ag Adran 117 (7) o Ddeddf y Môr (2009), ystyried canlyniadau economaidd neu gymdeithasol wrth ddynodi MCZau. Yn ystod y trafodaethau a'r ymgynghori â'r cyhoedd cesglir eich barn, ac ystyrir unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol wrth fynd i'r afael â'r diffygion yn y rhwydwaith.

## Pryd bydd y safleoedd yn cael eu dynodi?

Cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yw penderfynu a ddylid dynodi safleoedd. Disgwylir penderfyniad yn gaeaf 2024/25.

## Ble mae'r MCZau newydd yn debygol o fod?

Mae lleoliad y MCZau newydd yn dibynnu ar ble mae'r nodweddion diffygiol. Mae llawer o nodweddion diffygiol fel cynefinoedd eang mewn ardaloedd ar y môr mawr ac yn nyfroedd y glannau.

Mae'r rhan fwyaf o'r MPAau presennol sy'n diogelu cynefinoedd a rhywogaethau ar wely'r môr yn nyfroedd y glannau. Ffefrir lleoli MPAau yn ardal y môr mawr (y tu hwnt i 12 môr-filltir) fel eu bod yn cynnwys cynefinoedd mewn dyfroedd dyfnach, er mwyn cynnwys yr holl amrediad o gynefinoedd yn y Rhwydwaith MPAau ac i wella cysylltedd. Mae rhai achosion lle mae'r nodweddion diffygiol yn nyfroedd y glannau yn unig.

## A ydych yn ystyried argymhellion Adroddiad 2013 y Tîm Gorchwyl a Gorffen ar MCZau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn dilyn y broses MCZau flaenorol yn 2012?

Ydym, ar ôl ystyried yr adroddiad ac argymhellion y Tîm Gorchwyl a Gorffen, tynnodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer MCZau â lefel uchel iawn o warchodaeth yn ôl yn ffurfiol. Mae'r prosiect presennol ar gyfer cwblhau'r Rhwydwaith MPAau wedi mabwysiadu nifer o'r argymhellion, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys ac yn cyfrannu at gyfnodau allweddol y broses.

Gwrandawodd Llywodraeth Cymru ar farn rhanddeiliaid, yn dilyn y problemau a gododd yn ystod y broses ar gyfer MCZau yn 2012.

Gwnaethant sefydlu Tîm Gorchwyl a Gorffen i ystyried sut y dylid datblygu MCZau yng Nghymru. Cafodd y Tîm Gorchwyl a Gorffen eu cefnogi gan Grŵp Ffocws Rhanddeiliaid a oedd yn cynrychioli pob un o brif ddefnyddwyr y môr. Yn 2013, ar ôl ystyried yr adroddiad ac argymhellion y Tîm Gorchwyl a Gorffen, tynnodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer MCZau â lefel uchel iawn o warchodaeth yn ôl yn ffurfiol.

Comisiynodd Llywodraeth Cymru yr asesiad o Rwydwaith MPAau Cymru yn 2016, mewn ymateb i un o argymhellion y Tîm Gorchwyl a Gorffen. Mae'r prosiect presennol ar gyfer cwblhau'r Rhwydwaith MPAau wedi mabwysiadu argymhellion perthnasol y Tîm Gorchwyl a Gorffen i ddynodi MCZau i sicrhau bod Cymru yn gwneud cyfraniad llawn at rwydwaith ecolegol gydlynol yn y DU, gan sicrhau bod rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys ac yn cyfrannu at gyfnodau allweddol y broses.

## A ganiateir cynnal gweithgareddau ar safleoedd?

Gwneir, bydd y safleoedd hyn yn aml-ddefnydd.

Ni fydd presenoldeb MCZ yn atal gweithgareddau presennol neu newydd, datblygiadau na newidiadau yn awtomatig.

Mewn llawer o achosion, ni fydd unrhyw ryngweithio rhwng gweithgareddau masnachol neu hamdden ac felly ni fydd angen mesurau rheoli. Ar ôl dynodi MCZ a chyhoeddi amcanion cadwraeth, bydd pob un yn cael ei reoli fel rhan o'r rhwydwaith ehangach o MPAau yng Nghymru, yn unol â'r Fframwaith Rheoli MPAau[8]. Bydd gweithgareddau a ganiateir yn cael eu hasesu yn erbyn amcanion cadwraeth y safle.

[8] https://llyw.cymru/fframwaith-rheoli-rhwydwaith-ardaloedd-morol-gwarchodedig-cymru

Fel y grŵp sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o reoli'r Rhwydwaith MPAau yng Nghymru, bydd y Grŵp Llywio ar Reoli MPAau yn gofyn am y wybodaeth ddiweddaraf drwy gydol y broses hon.

Caiff Llywodraeth Cymru, yn unol ag Adran 117 (7) o Ddeddf y Môr (2009), ystyried canlyniadau economaidd neu gymdeithasol wrth ddynodi MCZau. Yn ystod y trafodaethau a'r ymgynghori â'r cyhoedd cesglir eich barn, ac ystyrir unrhyw effeithiau economaidd-gymdeithasol wrth fynd i'r afael â'r diffygion yn y rhwydwaith.

## A fydd y rhain yn barciau papur yn unig?

Na fyddant. Parciau papur yw MPAau sy'n bodoli mewn deddfwriaeth ond nad oes ganddynt y pŵer i atal dirywio. Er mwyn sicrhau nad yw hyn yn digwydd, bydd MCZau newydd sy'n cael eu dynodi yng Nghymru yn cael eu rheoli'n effeithiol i sicrhau bod eu hamcanion cadwraeth yn cael eu cyflawni.

## Pa fath o weithgareddau fydd yn cael eu rheoli?

Bydd y safleoedd hyn yn aml-ddefnydd. Fodd bynnag, bydd angen rheoli gweithgareddau sy'n cael eu cynnal lle mae nodweddion sy'n sensitif i'r gweithgareddau hynny. Bydd rhagor o gyfleoedd i drafod y ffordd mae unrhyw safleoedd sy'n cael eu dynodi yn y dyfodol yn cael eu rheoli.

Mae rhwydwaith presennol Cymru o MPAau, yn bennaf ACAau ac AGAau, yn ardaloedd morol gweithredol sy'n cael eu defnyddio at amrywiaeth o wahanol ddibenion. Mae'r rhain yn cynnwys morgludo, ynni, pysgodfeydd a gweithgareddau hamdden. Efallai y bydd angen rheoleiddio ychwanegol ar rai gweithgareddau a datblygiadau sydd â'r potensial i gael effaith andwyol ar fywyd gwyllt. Er hynny, mae llawer o weithgareddau morol ac arfordirol yn cydfodoli â chadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau.

Ni ddylai dynodi rhagor o ardaloedd yn effeithio'n sylweddol ar reoli a rheoleiddio gweithgareddau presennol nad ydynt yn achosi effaith andwyol ar y nodweddion y mae'r safleoedd wedi'u dynodi ar eu cyfer. Bydd rhagor o gyfleoedd i drafod y ffordd mae unrhyw safleoedd sy'n cael eu dynodi yn y dyfodol yn cael eu rheoli.

## Beth yw amcanion cadwraeth a phryd byddant yn cael eu datblygu?

Amcanion cadwraeth yw'r nodau ecolegol ar gyfer y cynefinoedd a/neu'r rhywogaethau a ddiogelir o fewn MPA.

Mae Deddf y Môr a Mynediad o'r Arfordir yn ei gwneud yn ofynnol pennu amcanion cadwraeth ar gyfer MCZau.

Mae amcan cadwraeth yn disgrifio'r nod ar gyfer cyflwr y nodweddion gwarchodedig. Mae'n fan cychwyn i lywio mesurau rheoli ac anghenion monitro.

Fel cynghorwyr cadwraeth natur statudol, bydd CNC a'r JNCC Cyd-bwyllgor yn rhoi cyngor ar yr amcanion cadwraeth a'r opsiynau rheoli posibl ar gyfer MCZau:

- Amcanion cadwraeth ar gyfer yr MCZau
- Cyngor ar gyflwr y nodwedd
- Cyngor ar weithgareddau a allai effeithio ar nodweddion.

Cyhoeddir rhagor o wybodaeth maes o law am ddatblygu a rheoli Amcanion Cadwraeth.

## Pam mae angen rhagor o MPAau arnom pan nad yw rhai o nodweddion ein MPAau presennol mewn cyflwr ffafriol?

Dynodi MPAau yw'r cam cyntaf tuag at reoli safle er mwyn sicrhau bod ei nodweddion mewn cyflwr ffafriol. Mae amryw heriau wrth geisio nodi'r rhesymau dros newidiadau yn yr amgylchedd morol. Yn aml, gall gymryd amser hir i fanteision gweithgaredd rheoli wneud gwahaniaeth gweladwy i gyflwr nodwedd.

Mae angen rheol rhai nodweddion am gyfnod hwy cyn iddynt gyrraedd cyflwr ffafriol, ond ni ddylai hyn ein hatal rhag dynodi rhagor o MPAau. Ni ddylai maint y rhwydwaith presennol ein rhwystro rhag nodi MCZau ychwanegol, a bydd rheoli MPAau newydd a'r rhai sydd eisoes yn bodoli yn effeithiol yn helpu i gynyddu cydnerthedd yr ecosystem forol.

## Beth am rhywogaethau symudol?

Mae rhywogaethau morol symudol iawn, megis llamidyddion, dolffiniaid, morloi, pysgod ac adar y môr yn chwarae rhan bwysig iawn yn ein hamgylchedd morol. Maent yn aml yn cael eu defnyddio fel dangosyddion allweddol wrth asesu iechyd ecosystemau morol.

Mae llawer o rywogaethau symudol eisoes yn cael eu gwarchod gan y Rhwydwaith MPAau yng Nghymru, ac mae MPAau wedi cael eu dynodi ar gyfer llamidyddion, dolffiniaid trwyn potel, morloi llwyd ac amrywiaeth o adar môr. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr angen am MCZau i ddiogelu unrhyw rywogaethau symudol ychwanegol yn ystod camau gwaith yn y dyfodol.

## Beth am fioamrywiaeth ehangach

Rydym yn nodi Parthau MCZau newydd i gwblhau'r Rhwydwaith MPAau drwy fynd i'r afael â diffygion a ddaeth i'r amlwg yn yr asesiad o'r rhwydwaith. Ni fydd rheoli'r MCZau ond yn mynd i'r afael â gweithgareddau sydd â'r potensial i achosi effaith andwyol ar y nodweddion y mae'r safleoedd wedi cael eu dynodi ar eu cyfer.

Gallai Cam 3 o'r prosiect edrych ar sut y gall y safle gefnogi bioamrywiaeth ehangach drwy ddiogelu achlysurol. Fodd bynnag, ni fydd mesurau rheoli'n cael eu creu i ddiogelu bioamrywiaeth ehangach.

## Beth am Ynys Sgomer?

Ynys Sgomer oedd unig Warchodfa Natur Forol Cymru am 24 mlynedd a hi oedd y MCZ cyntaf yng Nghymru yn 2014. Mae'r is-ddeddfau a gyflwynwyd i ddiogelu a rheoli'r Warchodfa Natur Forol yn parhau i fod ar waith.

Fel rhan o gam yn y gwaith ar MCZ Sgomer yn y dyfodol bydd Llywodraeth Cymru yn cyflwyno gorchymyn dynodi, sy'n darparu gwybodaeth am nodweddion gwarchodedig yr MCZ a'r amcanion cadwraeth cysylltiedig, yn unol â gofynion Deddf y Môr. CNC a rhanddeiliaid fydd yn llywio’r cam gwaith hwn.